national **dance**
company **wales**
cwmni **dawns**
cenedlaethol **cymru**

# Cynllun Iaith Gymraeg

# Welsh Language Scheme 2022-2025

Paul Kaynes Prif Weithredwr  Geraint Chinnock, Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Staff  Cathryn Allen ac William James, Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolwyr

Diweddarwyd y tro diwethaf: Gorffennaf 2022

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r polisi hwn, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu.

## 1. Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn nodi pam y mae'r Gymraeg yn bwysig i Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru); sut y cynigiwn ddeall, cryfhau a datblygu'r iaith ym mhob rhan o'n gwaith dros y pedair blynedd nesaf; a sut y byddwn yn adolygu ac yn asesu llwyddiant ein cynllun.

Mae CDCCymru wedi ymrwymo i feithrin dwyieithrwydd ar draws ei weithgareddau oherwydd:

- Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, ac fel cwmni cenedlaethol rydym eisiau hyrwyddo a chefnogi diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg
- Fel cwmni sy'n gweithio y tu hwnt i'n ffiniau, cydnabyddwn ein bod yn llysgenhadon i'r wlad, ei diwylliant a'i hiaith
- Cydnabyddwn bwysigrwydd y Gymraeg fel adnodd creadigol a diwylliannol arbennig.

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn creu gwaith dawns uchelgeisiol a diddorol, gan gyflwyno Cymru i'r byd a chan adlewyrchu'r byd yng Nghymru. Breuddwydiwn am gael Cymru a gaiff ei dathlu fel cenedl sy'n danbaid dros ddawns a dawnsio, lle mae dawns yn rhan o fywydau pawb. Mae ein gweithgareddau cydweithredol yn canfod ac yn meithrin potensial, gan gynorthwyo Cymru a'i phobl i ffynnu a chan hyrwyddo datblygiad dawns fel celfyddyd. Dewch inni newid y byd trwy ddawnsio.

Ein nod yw sicrhau y gall pawb gael mynediad at yr hyn sydd gennym i'w gynnig. Rydym eisiau bod yn berthnasol i fywydau a dyheadau pobl, yn enwedig yma yng Nghymru. Mae ein hunaniaeth Gymreig yn rhan bwysig o bwy ydym ni fel cwmni.

Un o'n blaenoriaethau yw cyflawni cyfiawnder cymdeithasol, ac ategir hyn gydag ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnwys yr Iaith Gymraeg.

Rydym eisoes wedi ymrwymo i ddwyieithrwydd yn yr amryfal ffyrdd y gweithredwn, yn enwedig o ran gwaith marchnata a hyrwyddo, e-gyfathrebu a recriwtio. Caiff ein gweithwyr eu cynorthwyo i ddysgu'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae gan y Cwmni beth gwaith i'w wneud eto i sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg yn ein gwaith a'n bod yn gwneud defnydd priodol o'r Gymraeg, yn arbennig yn y rhannau hynny o'r wlad lle ceir cyfran uchel o bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd amcanion y polisi hwn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda'r nod o gyflwyno gwelliannau parhaus. Byddwn yn sicrhau y darperir yr un safonau uchel yn y ddwy iaith:

- Trwy sicrhau bod y staff/gwirfoddolwyr i gyd yn ymwybodol o oblygiadau'r cynllun Iaith Gymraeg hwn
- Trwy annog pobl i deimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio'r Gymraeg, a hynny trwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael
- Trwy ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu dibynadwy o safon uchel er mwyn sicrhau y caiff yr holl ddeunyddiau perthnasol eu cyfieithu'n gywir

- Trwy ddarparu'r holl ddeunyddiau marchnata yn y Gymraeg a'r Saesneg

## 2. Datganiad

Mae CDCCymru wedi mabwysiadu gofyniad Llywodraeth Cymru, sef y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yng Nghymru. Deallwn y gall cynnig gwasanaethau sy'n parchu dewis iaith yr unigolyn wneud gwahaniaeth mawr i brofiad yr unigolyn hwnnw. Ein dymuniad yw annog pobl sy'n delio â CDCCymru i deimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio'u dewis iaith. Byddwn yn darparu ein gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg pa bryd bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn briodol.

Bydd cynnig darpariaeth Gymraeg yn rhan hanfodol o'n gweithgareddau. Adlewyrchir hyn yn ein gweithdrefnau ar gyfer pennu gwariant ac adnoddau. Byddwn yn anelu at sicrhau bod gwariant a dyrannu adnoddau yn arfer safonol, er mwyn sicrhau y bydd cynnig darpariaeth yn nwy iaith swyddogol Cymru yn gyfystyr â 'busnes fel arfer' pa bryd bynnag y bo hynny'n addas, yn rhesymol ac yn ymarferol.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn rhoi'r egwyddor hon ar waith yn ymarferol wrth ddarparu ar gyfer y cyhoedd. Bydd y cynllun gweithredu yn esbonio sut y bydd y sefydliad yn anelu at gyflawni ei amcanion, ac erbyn pryd. Bydd dysgu ar sail profiad yn nodwedd ar y Cynllun hwn, a byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau cynnydd rheolaidd fel y gallwn gynnig y ddarpariaeth orau bosibl i'n defnyddwyr.

Mae'r cynllun hwn yn dilyn Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cyfres o ofynion cyfreithiol rwymol yw'r Safonau hyn, gyda'r nod o sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## 3. Cynllunio a chyflawni

**Nodau**

Mae gennym nodau penodol o ran meithrin dwyieithrwydd, sef:

- Sicrhau cyfathrebu uniongyrchol gyda'n rhanddeiliaid Cymraeg (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gynulleidfaoedd, staff, artistiaid a chyllidwyr)
- Cyfoethogi'r gwaith a gaiff ei greu gennym trwy wneud yn fawr o hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru
- Codi ymwybyddiaeth o CDCCymru fel cwmni diamheuol Gymreig

**Camau Gweithredu**

Byddwn yn meithrin dwyieithrwydd yn y meysydd cyflawni canlynol:

- Artistiaid
- Y Staff a'r Bwrdd
- Perfformiadau
- Y Tŷ Dawns
- Partneriaethau
- Ymgysylltu
- Recriwtio

**Perfformiadau**

- Ychydig o iaith lafar a ddefnyddir yn ein gweithiau. Yn aml, mae union ystyr y geiriau yn llai pwysig na'r syniad neu'r ysbryd sydd wrth eu gwraidd. Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd llawn dychymyg o ddefnyddio'r Gymraeg, fel y bo hynny'n briodol i'n gwaith (3.1)

**Rhaglen y Tŷ Dawns**

- Mae'r Tŷ Dawns ar gael i amrywiaeth eang o artistiaid fel y gallant greu, ymarfer a chyflwyno'u gwaith eu hunain. Bydd y Cwmni yn parhau i gynorthwyo cwmnïau sy'n gweithio yn y Gymraeg, gan gynnig gwybodaeth am y trefniadau llogi yn y Gymraeg a'r Saesneg (3.2)
- Byddwn yn annog cyfle cyfartal i artistiaid Cymraeg fel y gallant arwain a chyflawni prosiectau a gweithgareddau'r Cwmni yn y Tŷ Dawns (3.3)

**Partneriaethau**

- Byddwn yn chwilio am ragor o bartneriaethau gyda sefydliadau a leolir mewn bröydd Cymraeg (megis ein partneriaid presennol, Pontio ym Mangor – un o'n Lleoliadau Blaenoriaeth yng Nghymru, a Dawns i Bawb ac asiantaethau dawns ieuenctid eraill yng ngogledd Cymru – mae pob un ohonynt yn ein helpu eisoes i gysylltu â phobl ifanc ddawnus o gefndiroedd Cymraeg) (3.4)
- Byddwn yn defnyddio dulliau dwyieithog i gyfathrebu gyda'r partneriaid hynny, naill ai trwy ddefnyddio staff Cymraeg eu hiaith neu trwy ddarparu cyfieithwyr/cyfieithwyr ar y pryd mewn cyfarfodydd/digwyddiadau cyhoeddus (3.4)

**Ymgysylltu**

- Mae'r Cwmni yn defnyddio Llysgenhadon Dawns Cymraeg eu hiaith i weithio gyda grwpiau cymunedol ac ysgolion Cymraeg

**Recriwtio**

- Pan fo'n ymarferol, byddwn yn cynnig yr opsiwn i bobl gael cyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg
- Bydd yr holl swyddi a hysbysebir yn cael eu hanelu at siaradwyr Cymraeg a bydd asedau recriwtio ar gael yn y Gymraeg

**Y Staff a'r Bwrdd**

- Mae gennym hyrwyddwyr iaith Gymraeg ar lefel y Bwrdd (3.5)
- Ein bwriad yw sicrhau y bydd o leiaf 25% o'n staff ac aelodau ein Bwrdd yn siaradwyr Cymraeg, neu'n dysgu Cymraeg, ar unrhyw adeg (3.6)
- Byddwn yn trafod ein Polisi Iaith Gymraeg yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn flynyddol (3.7)
- Bydd yr holl swyddi'n cael eu hasesu pan ddônt yn rhydd; a phan fo'n briodol, byddant yn cael eu hailhysbysebu fel swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol

**Artistiaid**

- Byddwn yn ymhél â choreograffwyr, dylunwyr, cyfarwyddwyr, cyfansoddwyr a cherddorion Cymraeg er mwyn i'r gwaith adlewyrchu ein hunaniaeth Gymreig ac er mwyn sicrhau y bydd ein gwaith mor hygyrch ac atyniadol â phosibl i gynulleidfaoedd Cymraeg (3.8)

| | Sut / y sefyllfa bresennol | Y sawl sydd â'r prif gyfrifoldeb | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Cynnal trafodaethau gyda chydweithwyr creadigol yn gynnar yn y broses | Cyfarwyddwr Artistig / Cyfarwyddwr Ymarfer | Parhaus |
| 3.2 | Mae'r holl wybodaeth am drefniadau llogi ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Pennaeth Cynhyrchu yn siaradwr Cymraeg rhugl ac mae Cynorthwywyr Digwyddiadau Cymraeg eu hiaith ar gael | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Parhaus |
| 3.3 | Datblygwyd rhaglenni lle'r oedd yr amcan hwn yn un o'r amcanion allweddol – er enghraifft, *Plethu* | Cynhyrchydd Gweithredol / Cynhyrchydd Ymgysylltu | Parhaus |
| 3.4 | Llysgenhadon Dawns Cymraeg eu hiaith. Anelu at recriwtio Cynhyrchydd | Cynhyrchydd Ymgysylltu | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymgysylltu Cymraeg i'r rôl | | |
| 3.5 | Enwebwyd hyrwyddwr Cymraeg ei iaith | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Medi 2022 |
| 3.6 | Pennu swyddi Cymraeg allweddol. Gweithio gyda hyfforddwyr i ddatblygu rhaglenni hyfforddi a fydd yn gweddu i'r staff | Prif Weithredwr | Gorffennaf 2024 |
| 3.7 | Pennu amserlen gyfarfod gyda'r Cadeirydd newydd | Prif Weithredwr | Parhaus |
| 3.8 | Penodwyd Cynhyrchydd Gweithredol newydd a chanddo'r rôl o ddatblygu cydberthnasoedd allweddol | Cynhyrchydd Gweithredol | Parhaus |

4. Cyfathrebu gyda'r cyhoedd Cymraeg

**Gohebiaeth ysgrifenedig**: Mae CDCCymru yn croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith. Bydd y llythyrau a'r negeseuon e-bost a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu hateb yn y Gymraeg. Byddwn yn sicrhau bod yr ohebiaeth Gymraeg yn cael sylw o fewn yr un amser â'r ohebiaeth Saesneg.

Bydd pob gohebiaeth â'r cyhoedd a phob dogfen a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd papur â phennawd a negeseuon e-bost CDCCymru yn cynnwys datganiad safonol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn nodi y croesewir gohebiaeth yn y ddwy iaith (4.1)

**Dros y ffôn/wyneb yn wyneb:** Bydd CDCCymru yn gwneud ei orau i sicrhau bod y rhai sy'n dymuno siarad ag aelod o staff/gwirfoddolwr Cymraeg yn gallu gwneud hynny. Efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl, ond rydym yn annog ac yn hyfforddi staff/gwirfoddolwyr sy'n dysgu Cymraeg i wneud yn fawr o'u sgiliau. Os na fydd aelod o staff Cymraeg ar gael, byddwn yn cynnig cysylltu'n ôl â'r unigolyn yn y Gymraeg cyn gynted â phosibl (4.2)

Bydd yr holl negeseuon peiriant ateb yn cael eu recordio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Digwyddiadau cyhoeddus:** Bydd hysbysiadau ar gyfer pob digwyddiad cyhoeddus ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddant yn cynnwys datganiad yn nodi y perchir hawl y mynychwyr i siarad y naill iaith neu'r llall. Bydd cyflwyniadau'n cael eu cyflwyno yn y ddwy iaith a bydd y Cwmni yn annog pawb i gynnal yr egwyddor sydd ynghlwm wrth gydraddoldeb. (4.3)

| | Sut / y sefyllfa bresennol | Y sawl sydd â'r prif gyfrifoldeb | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Defnyddir y datganiad | Cyfarwyddwr Cyfathrebu | Parhaus |
| 4.2 | Annog y staff i ddysgu rhywfaint o Gymraeg. Mewn sesiynau cynefino gyda gweithwyr newydd, cynnwys sesiynau hyfforddi lle nodir ymadroddion defnyddiol | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Parhaus |
| 4.3 | Byddwn yn mesur yr angen am gyfleusterau cyfieithu ar y pryd trwy ofyn i'r mynychwyr nodi eu dewis iaith wrth gofrestru, a byddwn yn darparu'r cyfleusterau yma pan fo hynny'n ymarferol | Cyfarwyddwr Cyfathrebu | Parhaus |

5. Delwedd gorfforaethol

Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru – yn cynnwys ei gyfeiriad, ei logo, ei hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall – yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn cynnwys papur â phennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes, bathodynnau enwau, rhaglenni, arwyddion, cerbydau a safleoedd.

Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, fformat, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion mewnol ac allanol. Bydd yr arwyddion yn cynnal yr egwyddor sydd ynghlwm wrth gydraddoldeb, a bydd y testun Cymraeg yn ymddangos uwchben y testun Saesneg, neu o'i flaen (5.1)

| | Sut / y sefyllfa bresennol | Y sawl sydd â'r prif gyfrifoldeb | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Rhoddwyd hyn ar waith ac fe'i hadolygir yn gyson | Cyfarwyddwr Cyfathrebu | Parhaus |

6. Deunyddiau Marchnata a Chyhoeddiadau

Bydd pob dogfen a anelir at y cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg (6.1). Byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd.

Bydd nwyddau'n cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn cael canllawiau ysgrifenedig ynglŷn â sut i gyflwyno'r Gymraeg mewn cyhoeddiadau dwyieithog.

Defnyddir cwmni cyfieithu dibynadwy ac uchel ei barch i ddarparu gwasanaethau cyfieithu.

| | Sut / y sefyllfa bresennol | Y sawl sydd â'r prif gyfrifoldeb | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Gweithredwyd | Cyfarwyddwr Cyfathrebu | Parhaus |

7. Datganiadau i'r wasg

Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu rhyddhau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynhelir cyfweliadau yn y Gymraeg pan ofynnir am hynny. Bydd llefarydd Cymraeg ei iaith yn cael ei ddefnyddio pan fo llefarydd o'r fath ar gael.

8. Gwefan

Bydd modd i'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth ar ein gwefan, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y wefan yn nodi'r dewis iaith yn glir.

Bydd tudalennau Cymraeg a Saesneg y wefan yn cael eu diwygio a'u diweddaru ar yr un pryd.

Bydd adroddiadau, dogfennau a ffurflenni a roddir ar y we ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd yr holl fersiynau ar gael i'w lawrlwytho'n rhwydd.

Bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn cael canllawiau ysgrifenedig ynglŷn â sut i gyflwyno'r Gymraeg mewn cyhoeddiadau dwyieithog (8.1).

Wrth gynllunio neu ailddatblygu'r wefan, byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg: 'Technoleg, gwefannau a meddalwedd: Ystyried y Gymraeg'.

Er mwyn helpu'r staff a'r gwirfoddolwyr i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn archwilio'r posibiliadau sydd ynghlwm wrth feddalwedd TG, megis pecyn Cysgliad. Bydd fersiynau Cymraeg o Microsoft Windows ac Office ar gael i'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n dymuno'u defnyddio (8.2)

| | Sut / y sefyllfa bresennol | Y sawl sydd â'r prif gyfrifoldeb | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Gweithredwyd | Cyfarwyddwr Cyfathrebu | Parhaus |
| 8.2 | Nid yw'r pecynnau ar gael ar liniaduron ar hyn o bryd. Gweithio gydag adran dechnoleg Canolfan Mileniwm Cymru i osod y pecynnau ar bob gliniadur | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Ebrill 2023 |

9. Rhoi'r Cynllun ar Waith

Er mwyn rhoi'r cynllun hwn ar waith, bydd CDCCymru yn asesu pa sgiliau iaith sy'n angenrheidiol ym mhob gweithle ac ar gyfer pob gweithgaredd craidd. Bydd disgrifiadau swydd yn cynnwys cymal yn nodi bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y swydd dan sylw.

Byddwn yn adolygu sgiliau iaith y staff a byddwn yn cynnwys yr wybodaeth hon mewn rhestr o gysylltiadau mewnol (a) fel y gallwn wneud defnydd llawn o'u sgiliau iaith, (b) er mwyn canfod unrhyw brinder sgiliau o fewn y tîm, (c) er mwyn cyfeirio'r cyhoedd at yr aelod Cymraeg mwyaf priodol o fewn y Cwmni i ddelio â'u hymholiad. Byddwn yn ymdrin ag unrhyw brinder sgiliau drwy hyfforddi staff cyfredol neu wrth recriwtio staff newydd fel sy'n briodol. (9.1)

Bydd staff di-Gymraeg yn cael hyfforddiant ar gyfer sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog, sut i gyfeirio ymholiadau Cymraeg a sut i ynganu a sillafu enwau Cymraeg. (9.2)

Wrth recriwtio staff, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr newydd, bydd y Bwrdd yn ystyried gofynion ieithyddol y swydd a'r tîm yn ei gyfanrwydd, fel y gallwn roi'r

Cynllun hwn ar waith. Mae CDCCymru yn annog ac yn cynorthwyo staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg, ac mae'n cynorthwyo staff Cymraeg sy'n dymuno gwella'u sgiliau iaith. Rydym yn ariannu hyfforddiant yn y Gymraeg ac yn annog y staff i fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

| | Sut / y sefyllfa bresennol | Y sawl sydd â'r prif gyfrifoldeb | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Adolygwyd rolau Cymraeg. Bydd rhestr fewnol yn cael ei llunio a bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r staff presennol dros yr hydref | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Ebrill 2023 |
| 9.2 | Dylid trefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer Awst 2022 a dylid cynnwys y sesiynau hyn yn y broses gynefino wrth symud ymlaen. | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Ebrill 2023 |

10. Gweithredu a monitro

Bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, ynghyd â Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg y staff a'r Ymddiriedolwyr, yn monitro'r modd y rhoddir y Cynllun ar waith trwy gynnal adolygiad blynyddol (10.1).

Croesawn awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun a'r gwasanaeth iaith Gymraeg. Dylid anfon unrhyw awgrymiadau i'r cyfeiriad e-bost info@ndcwales.co.uk.

Byddwn wastad yn cynnwys adran yn ein hadroddiadau blynyddol yn sôn am weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg (10.2).

| | Sut / y sefyllfa bresennol | Y sawl sydd â'r prif gyfrifoldeb | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 10.1 | Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu a'i ddiwygio bob mis Mai | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Parhaus |
| 10.2 | | Prif Weithredwr | Parhaus |